

DATGANIAD NEWYDDION

Embargo tan 09.01 GMT
17^{eg} Ionawr 2019

Horizon yn atal ei weithgareddau i adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yn y DU

Mae Pŵer Niwclear Horizon wedi cyhoeddi heddiw y bydd yn atal ei raglen i ddatblygu gorsafoedd niwclear yn y DU, yn dilyn penderfyniad gan ei riant gwmni Hitachi, Ltd. Mae Horizon yn datblygu gorsaf niwclear Wylfa Newydd ar Ynys Môn yng Ngogledd Cymru ac mae ganddo ail safle yn Oldbury on Severn yn Ne Swydd Gaerloyw.

Mae'r cwmni wedi rhoi gwybod i Lywodraeth y DU am y penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod Bwrdd Hitachi ar 17eg Ionawr i beidio â bwrw ymlaen â'r rhaglen gyfredol o weithgareddau.

Dyweddodd Duncan Hawthorne, Prif Weithredwr Pŵer Niwclear Horizon:

“Rydyn ni wedi dod yn ein blaenau'n dda ar bob agwedd o ddatblygiad y prosiect, gan gynnwys dyluniad y DU o'n hadweithydd a oedd wedi cael ei brofi, datblygu'r gadwyn gyflenwi ac yn enwedig adeiladu sefydliad galluog iawn o bobl dalentog ac ymrwymedig.

“Rydyn ni wedi bod mewn trafodaethau agos gyda Llywodraeth y DU, ar y cyd â Llywodraeth Japan, ar yr ochr ariannu a'r trefniadau masnachol cysylltiedig ar gyfer ein prosiect ers blynyddoedd. Mae'n ddrwg iawn gennyf ddweud er gwaethaf ymdrechion gorau pawb a fu'n ymwneud â'r gwaith, nid ydym wedi gallu dod i gytundeb sy'n bodloni pawb dan sylw.

“O ganlyniad byddwn yn atal y gwaith o ddatblygu prosiect Wylfa Newydd, yn ogystal â'r gwaith sy'n ymwneud ag Oldbury, nes bydd modd dod o hyd i ateb. Yn y cyfamser, byddwn yn cymryd camau i leihau ein presenoldeb ond byddwn yn cadw'r opsiwn i ailgydio yn y datblygiad yn y dyfodol.”

Wrth drafod effeithiau'r penderfyniad hwn, dywedodd Mr Hawthorne:

“Yn amlwg bydd hyn yn cael effaith fawr ar bawb sy'n ymwneud â'n prosiect. Byddwn yn ceisio lleihau hyn cymaint ag y bo modd wrth i ni symud i'r cam nesaf a byddwn yn dechrau ymgynghori â'n staff ar unwaith ynghylch y goblygiadau. Staff sydd wedi dangos doniau, gwytnwch a phenderfyniad eithriadol i fynd â'r prosiect cymhleth a chyffrous hwn i'r cam yma.

“Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n agos â nifer o randdeiliaid rhyngwladol ac yn y DU sydd wedi cefnogi datblygiad y prosiect yn gryf, yn enwedig cymuned Ynys Môn yng Nghymru a gynrychiolir gan Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru a'r cynrychiolwyr allweddol o amgylch Oldbury.”

Dywedodd Mr Hawthorne fod ynni niwclear yn dal yn hollbwysig er mwyn darparu'r ynni fforddiadwy a charbon isel sicr sydd ei angen ar y DU.

“Fel y dangoswyd wrth i ni gwblhau'r Asesiad Dyluniad Generig ar gyfer Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, rwyf yn ffyddiog y gall y dechnoleg chwarae rhan bwysig i helpu i fynd i'r afael â'n hanghenion ynni a diwallu ein targedau o ran newid yn yr hinsawdd. Wylfa Newydd ar Ynys Môn ydy'r safle gorau o hyd ar gyfer datblygu gorsaf niwclear yn y DU ac rydyn ni'n dal wedi ymrwymo i barhau i gyfathrebu â'r Llywodraeth a'n rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch y dewisiadau ar gyfer y dyfodol yn y naill safle a'r llall.”

- DIWEDD -

I gael gwybod rhagor cysylltwch â:

Horizon:

Ben Russell - 01242 713604 / 07580 948 106 / ben.russell@horizonnuclearpower.com

Phillippa Burgess - 01242 507702 / 07393802219 / phillippa.burgess@horizonnuclearpower.com

Richard Foxhall (Cyfryngau Cymraeg /Cymru a lleol) - 07807 769265 / richard.foxhall@horizonnuclearpower.com.

Hitachi:

Yoshimasa Doi – +44 (0)1628 585384 / Yoshimasa.doi@hitachi-eu.com
Kelly Smith – +44 (0)1628 585379 neu Kelly.smith@hitachi-eu.com

Nodiadau i olygyddion:

Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd. ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cwmni yn datblygu cynlluniau i adeiladu gorsafoedd niwclear newydd i gynhyrchu o leiaf 5,800MW o bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Bydd ei safleoedd yn cyflogi hyd at 850 o bobl pan fyddan nhw'n weithredol gyda gweithluoedd adeiladu o hyd at 9.

Adnoddau Cyfryngau - <https://www.horizonnuclearpower.com/adnoddau-cyfryngau>